Sioe Nadolig

Nos Iau, Rhagfyr 11 roedd cynnwrf mawr yn yr ysgol wrth i bawb edrych ymlaen yn eiddgar at Sioe Nadolig y babanod. Nadolig yr Anifeiliaid oedd teitl y sioe ac roedd pawb wrth eu bodd yn gweld y plant yn gwneud eu gwaith mor dda. Diolch i Mrs Christine Davies am gyfeilio i'r plant.

Cyngerdd Nadolig

Nos Fawrth, Rhagfyr 16 roedd yn braf gweld Eglwys Sant Ioan yn llawn ar gyfer cyngerdd Nadolig y plant Iau. Cafwyd detholiad o eitemau am stori'r Geni a sawl eitem offerynnol. Da iawn chi blant am weithio mor galed. Diolch hefyd i Mrs Vera Lloyd am ei pharodrwydd i gynorthwyo.

Sinema

Bore Mawrth, Rhagfyr 16 aeth yr ysgol gyfan i'r sinema. 'Jingle Bells' oedd teitl y ffilm ac ar ôl bore o fwynhad braf oedd dychwelyd yn ôl i'r ysgol i brofi cinio Nadolig blasus Mrs Davies.

Parti Nadolig

Ar ôl holl brysurdeb y Nadolig roedd y plant yn haeddu ychydig o hwyl a sbri. Trefnwyd parti bendigedig ar eu cyfer gan y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon ac rydym yn ddiolchgar iawn iddynt am eu holl waith caled. Daeth ymwelydd pwysig i'r parti hefyd, sef Siôn Corn, ac roedd ganddo lond sach o anrhegion.